# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 24 Ionawr 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(40)v4

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60mins)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 mins)**
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cynnydd ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**

**4. Datganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth: Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru (30 munud)**

**5. Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: Compact Simpson gyda Llywodraeth Leol (30 munud)**

**Dogfennau ategol**
Compact ar gyfer Newid rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru

Llywodraeth Cymru: Ôl-troed cydweithio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus (Saesneg yn unig)

## 6. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Lles (30 munud)

**NDM4888 Gwenda Thomas (Castell Nedd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 29.6 yn cytuno y dylai Senedd y Deyrnas Unedig ystyried y darpariaethau pellach y cyfeirir atynt yn y Bil Diwygio Lles sy'n ymwneud â'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant, yn ogystal â'r darpariaethau y cyfeirir atynt yng nghynnig NDM 4713, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Dogfennau Ategol**
Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Ionawr 2012 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).

I weld copi o'r Mesur Seneddol Lleoliaeth i:
http://services.parliament.uk/bills/2010-11/welfarereform.html

Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## 7. Dadl ar Raglenni Ewropeaidd (60 munud

**NDM4897 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi:

a) cynigion deddfwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a Rhaglenni Gwledig a Physgodfeydd;

b) 'cyfnod ystyried' Llywodraeth Cymru sy'n ceisio barn rhanddeiliaid ynghylch y blaenoriaethau strategol ar gyfer y rhaglenni Ewropeaidd arfaethedig yng Nghymru (2014-2020);

c) ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gryfhau cysylltiadau Cymru â sefydliadau'r UE ymhellach wrth ddatblygu a gweithredu ei Rhaglenni Ewropeaidd.

Mae cynigion deddfwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd am ddarpariaethau cyffredin Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, y Gronfa Gydlyniant, Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop ar gael drwy'r ddolen ganlynol:

Mae cynigion deddfwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol ar gael drwy'r dolenni canlynol:

- Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop:

- Cronfa Gymdeithasol Ewrop:

- Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd

Mae cynigion deddfwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer rhaglenni gwledig ar gael drwy'r ddolen ganlynol:

- Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig

Mae cynigion deddfwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y rhaglen Pysgodfeydd ar gael drwy'r ddolen ganlynol:

- Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop

Mae cyfnod ystyried Llywodraeth Cymru ar gael drwy'r ddolen ganlynol:

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt c), dileu popeth ar ôl 'ymhellach,' a  rhoi yn ei le:

'a'r ffordd orau o wneud hynny yw drwy gyflawni Rhaglenni Ewropeaidd yn effeithlon ac yn effeithiol a sicrhau'r budd mwyaf posibl i bobl Cymru'.

**Gwelliant 2 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod efallai nad yw polisi Ewropeaidd y DU er budd gorau Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r capasiti i gyflwyno sylwadau'n uniongyrchol i sefydliadau'r UE.

**Gwelliant 3 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r newid arfaethedig i fonitro canlyniadau yn hytrach nag allbynnau a'r cyfle y gallai hyn ei greu i wella effaith y rownd nesaf o ariannu strwythurol.

**Gwelliant 4 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod yr holl arian sy'n weddill yn y rownd ariannu bresennol yn cael ei dargedu at gynlluniau sy'n creu swyddi cynaliadwy.

**8. Dadl ar Cymunedau yn Gyntaf (60 munud)**

**NDM4896 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf newydd, a fydd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi, gyda chynnwys y gymuned yn egwyddor allweddol iddi.

Cymynedau yn Gyntaf – Y Dyfodol: Ymgynghoriad yn gofyn am eich barn ar y newididaua  gynigir i raglen Cymunedau yn Gyntaf

Crynodeb o Benderfyniadau'r Gweinidog:

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi y bydd rhaid i'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf newydd gael sylfaen llywodraethu corfforaethol effeithiol er mwyn gallu creu Mudiadau Cymunedol annibynnol.

**Gwelliant 2 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwerthusiad priodol yn rhan annatod o'r holl brosiectau Cymunedau yn Gyntaf er mwyn mesur llwyddiant ac i allu gwneud gwelliannau yn ystod oes y prosiectau.

**Gwelliant 3 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad oedd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wreiddiol yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi

**Gwelliant 4 – Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Cymunedau yn Gyntaf wedi dod i'r casgliad 'ni all rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ddangos gwerth am arian'.

Gellir gweld adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus drwy fynd i:

[http://www.assemblywales.org/cr-ld7923.pdf](http://www.assemblywales.org/cr-ld7923.pdf)

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi, yn ei adroddiad 'Regenerating Communities First Neighbourhoods', mai gwelliannau bychain yn unig a ganfuwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Gellir gweld adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree yma (Saesneg yn unig)

**Gwelliant 6 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei rhaglen Cymunedau yn Gyntaf newydd yn cyflawni gwell canlyniadau na'i rhagflaenydd.

**Gwelliant 7 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan ei rhaglen Cymunedau yn Gyntaf newydd dargedau clir, perthnasol a mesuradwy i fynd i'r afael â thlodi.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mercher, 25 Ionawr 2012